

Gweithgareddau i Rieni a'u Plant

Mae angen darparwyr gweithgareddau plant!

Mae Cymunedau Gwledig Creadigol (CRC), Tîm Adfywio Gwledig Cyngor Bro Morgannwg am weithio gyda darparwyr gweithgareddau i ymestyn ei gynnig cyfredol i gynnig gweithgareddau i rieni a'u plant oedran ysgol a rhai ochr yn ochr.



TROSOLWG

Yn ôl adborth rhieni i CRC, nid oes llawer o weithgareddau i blant oedran ysgol yn rhannau o'r Fro wledig a lle mae gweithgareddau ar gael nid yw rhieni yn gwybod beth i'w wneud tra bod eu plant yn cymryd rhan yn y gweithgaredd. Dywedodd rhieni nad oes ganddynt amser i wneud unrhyw weithgareddau eu hunain gan eu bod naill ai'n rhuthro o gwmpas gyda'r plant neu fod ganddynt broblemau gofal plant. Sylweddolodd llawer ohonynt eu bod yn treulio llai o amser arbennig gyda'u plant ar ôl iddynt fynd i'r ysgol a'u bod heb lawer o amser i'w hunain.

"Galw ar ddarparwyr gweithgareddau – mae angen eich help arnom!"

Rydym am fynd i'r afael â hyn trwy dreialu:

1. Gweithgareddau i rieni a'u plant

Yn cynnig cyfleoedd i rieni / neiniau a theidiau / gwarcheidwad gymryd rhan mewn gweithgareddau hamdden / ffitrwydd gyda'u plant. Bydd hyn yn helpu i gryfhau perthnasau teuluol ac i annog y ddwy genhedlaeth i gymryd rhan mewn gweithgareddau newydd.

2. Gweithgareddau i rieni a phlant ochr yn ochr

Yn cynnig cyfleoedd i blant a rhieni / gwarcheidwaid gymryd rhan mewn gweithgareddau ar wahân ond ar yr un pryd yn yr un lleoliad. Gellir defnyddio 'amser gwastraff' rhieni a ceir gwared â rhwystrau gofal plant.

TARGEDU CYMUNEDAU

Ceir 4 cymuned treial lle y gellir treialu'r gweithgareddau:

- Sain Tathan
- Y Rhws
- Gwenfô
- Ystradowen

Roedd y cymunedau hyn yn rhan o broiect treialu mapio cymunedol a arweiniwyd gan CRC a thynnodd trigolion sylw at yr angen am fwy o weithgareddau ar gyfer plant oedran ysgol a theuluoedd.



Cyswllt:

Creative Rural Communities

Ffon: 01446 704 226

Ebost:

create@valeofglamorgan.gov.uk



BETH MAE DARPARWYR GWEITHGAREDDAU'N EI GAEL?

1. Cyfle i brofi ffordd newydd o gynnig gwasanaeth heb beryglu eich hun.
2. Cydfarchnata gweithgareddau i rieni a'u plant.
3. Cymorth hyfforddiant - rhwch wybod i ni â beth mae angen help arnoch.
4. Cyfleoedd rhwydweithio i ddysgu gan ddarparwyr gweithgareddau a'r gymuned leol.

YR HYN MAE ANGEN ARNOM GENNYCH?

1. Ymgymryd ag ethos cydweithredol y project a cyfleoedd rhwydweithio
2. Trefnu a chynnal gweithgareddau ar gyfer rhieni a phlant.
3. Mynd i sesiwn hyfforddiant hanner diwrnod
4. Cymorth gyda'r gwerthusiad.

PA FATH O WEITHGAREDDAU Y GELLIR EU CEFNOGI?

Gellir cefnogi unrhyw ystod o weithgareddau cyhyd â'u bod yn weithgareddau i rieni a'u plant neu rai y gallent eu gwneud ochr yn ochr ac yn y cymunedau targed. **Gallent gynnwys crefftau, bwyd, ffitrwydd / chwaraeon, cerddoriaeth neu gelfyddydau perfformio.**

Rhaid i'r gweithgareddau fod yn fodel newydd ar gyfer y darparwr gweithgareddau (h.y. Nid gweithgareddau sy'n gweithred ar sail riant a phlentyn ar hyn o bryd.

Dylai'r gweithgareddau arfaethedig dargedu plant oedran ysgol (4 l 18 oed) gyda'u rhieni / neiniau a theidiau / gofalwyr. Gallai gweithgareddau penodol dargedu grŵp oedran mwy penodol os yw'n briodol (e.e. plant Cyfnod Allweddol 2). Dylai'r holl weithgareddau arfaethedig fod ar gyfer **dosbarthiadau grŵp**. Ni châi gweithgareddau ar gyfer un rhiant ac un plentyn eu cefnogi .

Rhaid cysylltu ac archebu pob gweithgaredd fel pecyn ar gyfer rhiant a phlentyn ar yr un pryd. Nid oes modd cadw lle i blentyn ar weithgareddau heb riant.

'Cysylltwch â ni gyda'ch syniadau ar gyfer gweithgareddau newydd i rieni a'u plant gyda'i gilydd.'

AM FAINT GAIFF Y PROJECT EI DREIALU?

Rhaid i ddarparwyr gweithgareddau gyflwyno buddiant o ddiddordeb cychwynnol i Gymunedau Gwledig Creadigol **erbyn dydd Gwener 26 Ionawr 2018**. Asesir syniadau i sicrhau eu bod yn bodloni'r meini prawf cymhwysedd.

Cynigir cyfleoedd hyfforddiant / rhwydweithio priodol i ddarparwyr gweithgareddau yn ystod mis Chwefror / mis Mawrth 2018.

O fis Ebrill tan fis Hydref 2018, cynhelir gweithgareddau mewn grwpiau o 6 wythnos. Gall y gweithgareddau hyn fod yn sesiynau 1 neu 2 awr bob wythnos neu gyfres o weithgareddau diwrnod llawn yn ystod gwyliau'r ysgol / penwythnosau.

PA GYLLID SYDD AR GAEL?

Bydd cyllid ar gael i dalu cost lawn y gweithgaredd ar gyfer y grŵp cyntaf o weithgareddau (tua 6 wythnos), felly nid oes risg i'r darparwyr gweithgareddau os na fydd digon o bobl yn cofrestru ar gyfer y gweithgaredd.

Os bydd y darparwr gweithgareddau am barhau gyda'r gweithgaredd ar ôl y treial cyntaf, ceir cymorth posibl dan raglen farchnata gweithgareddau ar y cyd.